**Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd NWR 02-01(min)**

**Cofnodion**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Gwener 11 Mai 2001 |
| **Amser:** | 10.00am hyd 12.55pm |
| **Lleoliad:** | Canolfan Ucheldre, Caergybi |

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| *Aelodau* | |
| Ann Jones, Cadeirydd | Dyffryn Clwyd |
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Alison Halford | Delyn |
| Gareth Jones | Conwy |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Alun Pugh | Gorllewin Clwyd |
| Rod Richards | Gogledd Cymru |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| Ieuan Wyn Jones | Ynys Môn |
| Rhodri Morgan, Prif Weinidog Cymru | Gorllewin Caerdydd |
| *Railtrack* | |
| Andrew Skidmore | Rheolwr Cynllunio Datblygu, Y Gogledd Orllewin |
| Simon Maple | Rheolwr Datblygu Llwybrau, Moderneiddio Arfordir y Gorllewin |
| *Grp Trafnidiaeth Fforwm Economaidd Gogledd Cymru* | |
| Y Cynghorydd W J Williams | Cadeirydd |
| Mike Simkins | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Datblygu, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| *Ysgrifenyddiaeth* | |
| Adrian Crompton | Clerc y Pwyllgor |
| Howell Rees | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Cyflwyniad ac ymddiheuriadau**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a diolchodd i Ganolfan Ucheldre am ei lletygarwch. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Dafydd Elis Thomas, John Marek, Karen Sinclair a Dafydd Wigley.

**Eitem 2: Cofnodion ac adrodd yn ôl o'r cyfarfod blaenorol** - NWR 02-01(p1); NWR 01-01(min)

2.1 Yn ei gyfarfod ar 26 Ionawr cytunodd y Pwyllgor y dylid anfon llythyr at y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes yn crynhoi'r pwyntiau a godwyd yngln â chynorthwyo pobl ifanc yng Nghymru. Nododd y Pwyllgor y llythyr a anfonwyd gan y Cadeirydd ynghyd ag ateb y Gweinidog.

2.2 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Ionawr.

2.3 Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor i fod i ystyried Adolygiad Trefniadaeth y Cynulliad yn ei gyfarfod ar 23 Mawrth. Canslwyd y cyfarfod hwnnw oherwydd argyfwng clwy'r traed a'r genau. Yr oedd copïau o gylch gwaith yr Adolygiad a dalen sylwadau ar gael a gwahoddodd aelodau'r cyhoedd i roi eu sylwadau yn ysgrifenedig am y ffordd y mae'r Cynulliad yn gweithio.

2.4 Fel aelod o Grp yr Adolygiad, eglurodd Ieuan Wyn Jones fod y Grp yn edrych ar y ffordd y mae'r Cynulliad yn gweithio yn fewnol ac allanol, a byddai'n gwneud ei argymhellion cyn diwedd y flwyddyn. Yr oedd yn bwysig dod â'r Cynulliad at bobl Cymru drwy, er enghraifft, y pwyllgorau rhanbarth. Byddai Grp yr Adolygiad yn croesawu unrhyw sylwadau yn enwedig ar y ffordd yr oedd y Cynulliad yn cyfathrebu â'r cyhoedd.

**Eitem 3: Trafnidiaeth**
3.1 Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Cynghorydd Williams, Mike Simkins, Andrew Skidmore a Simon Maple i'r cyfarfod.

3.2 Rhoddwyd cyflwyniad byr i'r Pwyllgor gan Railtrack ar ddatblygiadau yng Ngogledd Cymru ac ar brif lein Arfordir y Gorllewin. Cliciwch yma i weld y cyflwyniad. Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau gan y Pwyllgor.

3.3 Sut gallai Railtrack oresgyn yr argraff nad ydynt yn llwyddo i feddwl yn strategol am fynediad i'r rheilffyrdd? Er enghraifft, codwyd canolfan adloniant yng Nghyffordd Llandudno ond ni ddarparwyd pont fynediad fel bod cerddwyr yn gallu cyrraedd gorsaf y rheilffordd.

- Dywedodd Andrew Skidmore fod Railtrack yn barod i hwyluso mynediad ond nad oedd yn ymwybodol o'r trefniadau cyllido ar gyfer y datblygiad.

3.4 Yr oedd y dyddiad ar gyfer cyflwyno trenau newydd Virgin ar lein Gogledd Cymru wedi llithro'n ôl. Ai problemau gyda'r trenau newydd ynteu'r trac sydd i gyfrif am y problemau?

- Dywedodd Simon Maple mai 2002 oedd y targed ar gyfer cyflwyno'r trenau newydd bellach ac y byddid yn gallu eu defnyddio cyn gynted ag iddynt gyrraedd.

3.5 Awgrymwyd bod Gogledd Cymru yn cael triniaeth eilradd. Pam mai dim ond i 90 milltir yr awr y mae cyflymdra'r cledrau yn cael ei gynyddu tra bo prif lein Arfordir y Gorllewin yn cael ei huwchraddio i 140 milltir yr awr?

- Eglurodd Simon Maple fod cyflymdra lein yn dibynnu ar natur y lein. Ychwanegol Andrew Skidmore fod Virgin yn buddsoddi'n sylweddol yn y trenau newydd.

3.6 Beth oedd manteision ac anfanteision trydaneiddio ac a fyddai teithwyr neu economi Gogledd Cymru yn dioddef pa na châi'r lein ei thrydaneiddio?

- Dywedodd Simon Maple fod trydaneiddio yn ddrud a bod posibl iddo beri i drenau fethu. Gwell perfformiad oedd y brif fantais ond, fwyfwy, yr oedd trenau disel modern yn gallu gwneud cystal o ran cyflymdra a chyflymu.

3.7 Gofynnwyd am ddadansoddiad o'r buddsoddiad £6.3 biliwn ar brif lein Arfordir y Gorllewin. Aeth 40 mlynedd heibio ers i lein Arfordir y Gorllewin gael ei huwchraddio ddiwethaf. Pam y gwnaeth gymryd cyhyd?

- Dywedodd Simon Maple na allai roi dadansoddiad manwl o'r buddsoddiad £6.3 biliwn ond deuai symiau sylweddol i law drwy drefniant masnachol gyda Virgin ac oddi wrth yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol. 25-30 mlynedd yw oes arferol lein. Er i lein Arfordir y Gorllewin fod yn disgwyl ers peth amser i waith uwchraddio gael ei wneud arni, yr oedd hon yn dasg logistaidd ac ariannol sylweddol iawn.

3.8 Sut gallai Railtrack sicrhau na fyddai gwaith cynnal a chadw ac uwchraddio a wneir yn y dyfodol yn tarfu eto ar wasanaethau? Sut gellid adfer ffydd y cyhoedd?

- Dywedodd Simon Maple mai dim ond drwy ddarparu gwasanaeth da y gellid adfer ffydd a chydnabyddai fod yna ffordd bell i fynd. Unwaith y byddai'r gwaith o uwchraddio prif lein Arfordir y Gorllewin wedi'i gwblhau credai y byddai'r gwasanaeth yn gyflymach ac yn fwy diogel.

3.9 Ai trenau disel fyddai'n darparu'r gwasanaeth rhwng Llundain a Chaergybi neu a fyddai'n rhaid newid trenau o hyd?

- Cadarnhaodd Simon Maple y byddai gwasanaeth drwodd yn cael ei ddarparu.

3.10 Beth oedd Railtrack yn ei wneud i wella ansawdd siwrneiau, er enghraifft, drwy ddarparu meysydd parcio, cyfleusterau aros a thoiledau, mynediad i'r anabl a gorsafoedd glân, a'r rheini i gyd o ansawdd

dda?

- Dywedodd Andrew Skidmore fod gwell cyfleusterau yn cael eu darparu. Yr oedd mynediad i'r anabl yn cael ei ddarparu pan gâi gorsafoedd eu newid a chytunodd i ysgrifennu at y Pwyllgor am fynediad i’r anabl a'r gwaith sy'n cael ei wneud i wella ansawdd siwrneiau. Ychwanegodd Simon Maple fod cysylltu meysydd parcio a thrafnidiaeth gyhoeddus â gorsafoedd yn bwysig a bod gwaith sylweddol wedi'i wneud mewn gorsafoedd mawr.

3.11 Yr oedd gofyn i Railtrack a'r cwmnïau trenau weithio fel tîm i roi sylw i faterion megis ansawdd y gwasanaeth a staffio gorsafoedd.

- Cydnabu Andrew Skidmore fod angen gwell gwaith tîm a dywedodd bod gwell ffocws ar gwsmeriaid yn cael ei ddatblygu. Cyfrifoldeb y cwmnïau trenau oedd staffio gorsafoedd.

3.12 Yr oedd yna nifer o gyfleoedd yng Ngogledd Cymru i gynyddu cludiant nwyddau ar y rheilffyrdd, gan gynnwys Dociau Mostyn a gwastraff llechi. Beth oedd yn cael ei wneud i gynyddu swmp y nwyddau a gludir ar y rheilffyrdd?

- Dywedodd Andrew Skidmore fod Railtrack yn cymryd rhan mewn astudiaeth dichonoldeb ar symud gwastraff llechi ar y rheilffyrdd. Ychwanegodd Simon Maple y câi 100% yn fwy o lwybrau eu darparu ar gyfer cludo nwyddau fel rhan o'r gwaith o uwchraddio prif lein Arfordir y Gorllewin.

3.13 Estynnodd y Cadeirydd groeso i ddisgyblion o Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch a gwahoddodd gwestiynau gan y cyhoedd.

3.14 Yr oedd Gwenllian Roberts, Ysgol Syr Thomas Jones, yn pryderu yngln â chost teithio ar y trên i bobl ifanc. Costiai cerdyn rheilffordd myfyriwr £17 ond nid oedd y disgowntiau sydd ar gael yn ddigon, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, a holodd pwy oedd yn gyfrifol.

- Dywedodd Andrew Skidmore mai'r cwmnïau trenau sy'n gosod prisiau tocynnau, nid Railtrack.

3.15 Croesawodd y Cynghorydd G O Parry, Cyngor Sir Ynys Môn, y Pwyllgor i Gaergybi a gofynnodd pa gynlluniau oedd gan Railtrack i godi lefel y platfformau ar yr Ynys. Dywedodd Mrs Ritson o Gaerwen ei bod yn anodd ymdopi â bagiau wrth gwrdd â rhywun oddi ar drên a holodd beth oedd yn cael ei wneud.

- Dywedodd Andrew Skidmore fod Railtrack yn edrych ar y pellterau camu ar nifer o orsafoedd ar Ynys Môn.

3.17 Dywedodd Bob Barton ei bod yn anodd cael gwybodaeth am ba orsafoedd sydd â mynediad i'r anabl. Ni allai'r llinell ymholiadau rheilffordd genedlaethol roi'r wybodaeth ac nid oedd mwyach yn

bosibl ffonio gorsafoedd unigol.

- Cytunodd Andrew Skidmore i ysgrifennu ar y pwynt hwn.

3.18 Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad byr wedyn gan Grp Trafnidiaeth Fforwm Economaidd Gogledd Cymru. Cliciwch yma i weld y cyflwyniad.

3.19 Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau a chwestiynau gan y cyhoedd.

3.20 Dywedodd dyn, na roddodd ei enw, ei bod yn cymryd dros 4 awr i yrru i Gaerdydd a bod angen gwella'r cysylltiadau ffordd cyn gynted â phosibl.

3.21 Dywedodd Barrie Mee, Grp Mynediad Dinbych, nad oedd cyflwyniad y Fforwm wedi cyfeirio o gwbl at fynediad i gadeiriau olwyn a bod yn rhaid cymryd hynny i ystyriaeth mewn system drafnidiaeth integredig.

3.22 Dywedodd Mrs Ritson o Gaerwen nad oedd unrhyw arwyddion oddi ar yr A55 newydd at wasanaethau a mwynderau yn y trefi a'r pentrefi ar Ynys Môn. O ganlyniad, yr oedd busnesau yn dioddef.

3.23 Dywedodd y Parchedig Hywel Davies fod yr A55 newydd ar draws Ynys Môn yn rhagorol ond cytunai fod yr arwyddion yn annigonol.

3.24 Dywedodd Mark Waddington, Fforwm Ieuenctid y Rhyl, fod beicio yn gyfrwng trafnidiaeth holl bwysig i bobl ifanc ond bod y rhan fwyaf o lwybrau beicio ar gyrion trefi. Anogodd y dylid darparu llwybrau drwy drefi.

3.25 Gofynnodd Stephanie Howlett, Ysgol Syr Thomas Jones, sut y gellid annog pobl ifanc i ddefnyddio bysiau a thramiau. Yn aml yr oedd yn rhaid iddynt dalu’r pris llawn i oedolion a theimlai y dylai fod cymhorthdal tuag at y prisiau a godir ar bobl ifanc.

3.26 Dywedodd Mark Youngman, Pwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr y Rheilffyrdd, fod gwell cyfleusterau yn costio arian a bod angen asesu blaenoriaethau'n ofalus i weld beth y gellid ei fforddio.

3.27 Cyfeiriodd Keith Roberts, Cyngor Sir Ynys Môn, at weledigaeth Taith am y 5 mlynedd nesaf. Cydnabuwyd bod yr amgylchedd yn ased ond dylid hefyd ystyried y seilwaith trafnidiaeth presennol yn ased. Dywedodd fod angen gwella'r cefnffyrdd.

3.28 Dywedodd Gwyneth Owen, Pwyllgor Tywysog Cymru, fod llawer o geisiadau am wersi gyrru yn cael eu derbyn oddi wrth bobl ifanc. Dyna'r unig gymhwyster y gallai rhai pobl ifanc ei gynnig i ddarpar gyflogwyr a'u hunig ffordd o gyrraedd y gwaith. Dylid darparu hyfforddiant gyrru priodol drwy'r

cynlluniau hyfforddi sy'n bodoli eisoes.

3.29 Dywedodd Robyn Parri fod angen mwy o feysydd awyr ar Ogledd Cymru i ddatblygu cysylltiadau ledled y DU ac Ewrop. Awgrymodd y dylid datblygu system reilffordd ysgafn mewn ardaloedd twristiaeth a bod angen cynllunio hirdymor i sefydlu system reilffordd gydlynol yng Nghymru.

3.30 Dywedodd Eilian Williams, Plaid Cymru, nad oedd yr A55 yn cysylltu'n uniongyrchol â gorsaf na phorthladd Caergybi. Yr oedd hyn yn achosi tagfeydd yn y dref ar adegau brig.

3.31 Cytunai Albert Owen fod y diffyg cyswllt digonol rhwng yr A55 a'r porthladd yn creu problem. Cyfeiriai cyflwyniad y Fforwm at integreiddio a phartneriaeth ond ychydig a ddywedwyd am botensial trafnidiaeth awyr a môr. Yr oedd gan Ynys Môn borthladd mawr, cysylltiadau ffordd rhagorol a rhwydwaith rheilffordd sy’n gwella ond nid oes ganddi faes awyr da.

3.32 Cytunai David St George, Celtic Connections, y byddai gwell cyfleusterau trafnidiaeth awyr o fudd i fusnes. Gellid sefydlu cyfleusterau mewn wythnosau tra'r oedd yn cymryd blynyddoedd i wella cysylltiadau ffordd a rheilffordd. Gofynnodd beth y gallai'r Cynulliad ei wneud i gefnogi datblygu gwasanaethau awyr.

3.33 Gofynnodd Stuart Anderson, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, sut y byddid yn datblygu rhaglen fuddsoddi newydd ar ôl i'r strategaeth 5 mlynedd gyfredol gael ei chwblhau. Teimlai y gellid dysgu llawer o esiampl yr Iseldiroedd ac Awstria sydd ill dwy yn buddsoddi mwy yn eu seilwaith trafnidiaeth.

3.34 Dywedodd Rhiannon Efans, Cyngor Cymuned Bethesda, fod y gwasanaethau bws yn ei hardal hi wedi dirywio ers i gontractwr newydd ymgymryd â'r gwaith. Gofynnodd i'r Cynulliad ymyrryd er mwyn i'r gwasanaeth 11pm gael ei ailsefydlu. Dywedodd fod bysiau platfform isel wedi gwneud argraff arni ar ymweliad â Lancaster yn ddiweddar. Yr oeddynt yn gwneud mynediad yn llawer haws a gobeithiai y gellid eu cyflwyno yng Ngwynedd.

3.35 Dywedodd Bob Barton mai prin ac anaml yw'r gwasanaethau bws yn ei ran ef o gefn gwlad Sir Ddinbych. Awgrymodd y gellid defnyddio cyllid Amcan 1 i brynu bysiau post i ardaloedd gwledig. Holodd hefyd a oedd cynghorau cymuned yn cael eu cynrychioli ar Taith.

3.36 Dywedodd Iwan Thomas fod cais am arwyddion brown i Gaernarfon, safle treftadaeth byd, wedi bod gyda'r Cynulliad am flwyddyn a holodd pa bryd y gellid disgwyl ateb. Ychwanegodd fod angen gwell cysylltiadau â'r A55 i annog busnesau i ymsefydlu i'r gorllewin o Fangor.

3.37 Ymatebodd Denzil Jones, o Is-adran Polisi Trafnidiaeth y Cynulliad, i rai o'r pwyntiau a godwyd. Dywedodd fod llawer o'r materion a godwyd yn y cyfarfod mewn cytgord â dogfen ymgynghorol y Cynulliad "Y Fframwaith Trafnidiaeth i Gymru". Amcanion bras y Strategaeth oedd creu system drafnidiaeth sydd o fewn cyrraedd haws, yn gorfforol ac i'r rheini sydd o dan anfantais yn gymdeithasol, ac wedi ei hintegreiddio'n well â'r amgylchedd o safbwynt y gwahanol ddulliau trafnidiaeth ac o

safbwynt cynllunio defnydd tir.

3.38 Yr oedd y Cynulliad wedi trafod pa ddylanwad sydd ganddo dros y system reilffyrdd yng Nghymru. Yr oedd Pwyllgor yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a Chynllunio nawr yn ystyried hyn yn fanwl fel rhan o'i adolygiad o drafnidiaeth cyhoeddus.

3.39 Yr oedd Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau yn cynnal astudiaeth i drafnidiaeth awyr a byddai'r adroddiad ar gael erbyn diwedd y flwyddyn. Un o'r ystyriaethau oedd i ba raddau y byddai angen cymhorthdal tuag at wasanaeth o'r fath. Yr oedd y Fali RAF wedi dynodi y byddent yn barod i gymryd rhan yn amodol ar y gofynion gweithredol.

3.40 Byddai'r Cynulliad yn cyhoeddi cynigion yn yr haf i wella'r system gefnffyrdd ond nid oedd ateb cyflym i ddatrys y problemau o ran y cysylltiadau ffordd rhwng y gogledd a'r de. Câi gwelliannau ffordd eu cynllunio mewn ymgynghoriad ag awdurdodau lleol ar sail ranbarthol. Yr oedd y cais am arwyddion brown i Gaernarfon yn cael ei ystyried. Eglurodd Denzil Jones nad ef yn bersonol oedd yn gyfrifol ond byddai'n codi'r cwestiwn ynghylch yr amser a gymerwyd i ymateb i’r Cyngor gyda'r rheini sy'n gyfrifol am hyn.

3.41 Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i wneud sylwadau ar y materion a godwyd a gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol:

- yr oedd angen buddsoddiad sylweddol yn y system gefnffyrdd o hyd;
- yr oedd y Cynulliad wedi cyhoeddi tocynnau teithio gostyngol i'r henoed a dylai help gael ei darparu ar gyfer pobl ifanc. Byddid yn mynd â'r pwynt hwn yn ôl i Bwyllgor yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a Chynllunio;
- dylai Fforwm Economaidd Gogledd Cymru geisio datblygu ac integreiddio trafnidiaeth gymunedol i mewn i system drafnidiaeth integredig;
- yr oedd angen gwneud mwy i wella mynediad ar gyfer pobl anabl. Yr oedd bysiau platfform isel yn darparu gwasanaeth rhagorol mewn dinasoedd ac yr oedd angen gwneud mwy mewn ardaloedd gwledig;
- mae angen datblygu argraff gadarnhaol o ogledd Cymru. Y mater pwysicaf yw lefel y buddsoddiad sy'n ofynnol i gefnogi'r economi lleol a'i helpu i ddod dros argyfwng clwy'r traed a'r genau.

3.42 Dywedodd y Cynghorydd Williams y byddai Grp Trafnidiaeth Fforwm Economaidd Gogledd Cymru yn edrych eto ar ei strategaeth ac y byddai'n cymryd y sylwadau a wnaethpwyd yn y cyfarfod i ystyriaeth.

*Pwyntiau gweithredu*

3.43 **Railtrack** i ysgrifennu at y Pwyllgor gyda manylion y gwaith sy'n cael ei wneud i wella mynediad i'r anabl a gwella ansawdd siwrneiau.

3.44 **Railtrack** i ddarparu gwybodaeth am ba orsafoedd yn rhanbarth Gogledd Cymru sydd â mynediad i'r anabl.

**Eitem 4: Prif Weinidog Cymru**

4.1 Estynnodd y Cadeirydd groeso i Brif Weinidog Cymru ac i ddisgyblion o Ysgol Uwchradd Caergybi i'r cyfarfod.

4.2 Dywedodd Prif Weinidog Cymru mor falch oedd o fod yng Nghaergybi. Yr oedd Caergybi yn nes at Ddulyn na Chaerdydd ac yr oedd gan Gymru lawer i'w ddysgu gan Iwerddon yn y ffordd yr oedd wedi buddsoddi mewn addysg, gyda phwyslais ar hyfforddiant galwedigaethol. Teimlai mai cyd-drefnu hyfforddiant a diwydiant oedd wrth wraidd llwyddiant Iwerddon a byddai'n gwneud yn sir bod yr Awdurdod Datblygu ac ELWa yn dilyn llwybr cyffelyb a fyddai, gobeithiai, yn dod â ffyniant economaidd i bob rhan o Gymru.

4.3 Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau gan y cyhoedd wedyn i Brif Weinidog Cymru.

4.4 Dywedodd Ron Ankers, Cyngor Cymuned Rhiwabon, fod dau drên y diwrnod rhwng Caergybi a Chaerdydd yn pasio drwy Riwabon. Holodd a oedd yn bosibl iddynt stopio yn Rhiwabon

- Yn sgîl cyflwyno masnachfraint reilffyrdd i Gymru gyfan, dywedodd Prif Weinidog Cymru y dylid dechrau rhoi sylw i broblem y cysylltiadau de – gogledd. Dywedodd y byddai'r Cynulliad yn disgwyl cael y gwelliannau mwyaf posibl am y cymhorthdal isaf gan ddarpar ymgeiswyr.

4.5 Croesawodd y Cynghorydd Trevor Lloyd Hughes, Cyngor Sir Ynys Môn, y Pwyllgor i Ynys Môn. Dywedodd fod angen cyswllt o'r A55 newydd i'r porthladd ac y dylid ei adeiladu cyn gynted â phosibl. Yr oedd y broblem wedi ei chodi yn yr ymchwiliad cyhoeddus.

- Dywedodd Prif Weinidog Cymru y byddai'n codi'r mater gyda Sue Essex gan ofyn iddi ysgrifennu yn nodi'r sefyllfa ddiweddaraf.

4.6 Cyfeiriodd cynghorydd o Fethesda at ddatganiad i'r wasg gan Sue Essex ym mis Ionawr a oedd wedi cyhoeddi buddsoddiad o £300 miliwn ar gyfer gwelliannau trafnidiaeth yng Nghymru dros y 5 mlynedd nesaf. Yr oedd yn pryderu nad oedd y rhaglen yn cynnwys gwelliannau ym Methesda.

- Dywedodd Prif Weinidog Cymru nad oedd manylion y rhaglen ganddo wrth law. Tynnodd sylw at y ffaith bod arian sylweddol wedi'i fuddsoddi ar goridorau'r M4 a'r A55 dros y blynyddoedd diwethaf.

4.7 Dywedodd Stephen Hughes, Ysgol Uwchradd Caergybi, fod yr iaith Gymraeg o dan bwysau cynyddol mewn ardaloedd gwledig wrth i siaradwyr Saesneg symud i mewn. Holodd pam fod y rhai sy'n

llunio polisi yn amharod i gyflwyno polisïau i helpu pobl leol, tebyg i'r rheini sydd wedi eu rhoi ar waith yn Ardal y Llynnoedd a mannau eraill.

- Dywedodd Prif Weinidog Cymru ei bod yn anodd rheoli pwy sy'n prynu tai mewn gwlad rydd. Yr oedd helpu pobl leol i ddiwallu eu hangen am dai yn drefniant dilys ond ni ellid rhwystro pobl o'r tu allan i'r gymuned leol rhag prynu tai.

4.8 Dywedodd dyn, na roddodd ei enw, ei fod yn teithio'n rheolaidd ar yr A55 a'i fod wedi gweld y buddsoddiad a ddaeth i Fangor yn ei sgîl. Dywedodd y dylid defnyddio Amcan 1 i ddiwallu anghenion Caergybi.

- Cytunodd Prif Weinidog Cymru fod prosiect yr A55 yn cynrychioli buddsoddiad enfawr ar yr Ynys.

4.9 Dywedodd Dylan Morgan, PAWB, i Orsaf Ber yr Wylfa roi'r gorau i gynhyrchu trydan ym mis Ionawr. Yr oedd BNFL wedi cydnabod y problemau gyda'r asiadau yn yr adweithydd ac yr oedd am ddefnyddio tanwydd newydd. Yr oedd gan PAWB bryderon yngln ag ailagor yr Wylfa ac anogodd y Cynulliad i wrthwynebu hynny.

- Eglurodd Prif Weinidog Cymru nad mater i'r Cynulliad oedd hwn ond i'r llywodraeth ganolog a'r Arolygwyr Sefydliadau Niwclear.

4.10 Dywedodd y Parchedig Hywel Davies fod yna lawer iawn o frwdfrydedd a llawer o syniadau am gynlluniau Amcan 1 ar Ynys Môn ond dywedodd nad oedd digon o gyllid cyfatebol ar gael.

- Dywedodd Prif Weinidog Cymru fod yna beth dryswch yngln â chyllid cyfatebol Amcan 1. Cyn i Amcan 1 ddechrau bu'n rhaid penderfynu faint o fuddsoddiad i'w neilltuo i wahanol gategorïau'r prosiect. Seiliwyd y dyraniadau ar amcangyfrifon ac yr oedd y ceisiadau yn is na'r disgwyl mewn rhai categorïau, megis ynni, tra'r oedd gormod o geisiadau wedi dod i law mewn categorïau eraill. Byddai cyfle ymhen dwy flynedd i wneud addasiadau priodol rhwng y categorïau.

4.11 Dywedodd Bob Barton fod angen rhagor o arian ar gyfer Sportsmatch. Yr oedd gan Gyngor Chwaraeon Cymru £50,000 o gyllid cyfatebol ar gael i'r cynllun ond yr oedd angen £170,000 i gyfateb i'r ceisiadau a wnaethpwyd. Awgrymodd y gellid defnyddio cyllid Amcan 1.

- Amheuai Prif Weinidog Cymru pa un a oedd Amcan 1 yn briodol ar gyfer y cynllun hwn ond dywedodd y byddai'n gofyn i Jenny Randerson edrych ar y mater.

4.12 Cododd Neil Crumpton, Cyfeillion y Ddaear, Cymru, gwestiynau yngln â blaenoriaethau'r Cynulliad wrth gyllido gwelliannau trafnidiaeth a'r rhagdybiaeth bod ffyrdd newydd yn cyfateb i ddatblygu economaidd. Dywedodd y dylid rhoi mwy o flaenoriaeth i gynlluniau beicio a mesurau tawelu traffig er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar geir. Gofynnodd i Brif Weinidog Cymru bwysleisio manteision

amgylcheddol treth uchel ar danwydd wrth y Prif Weinidog.

- Dywedodd Prif Weinidog Cymru fod y Cynulliad yn cefnogi trafnidiaeth gyhoeddus drwy gynlluniau megis cefnogi gwasanaeth rheilffordd Caergybi-Caerdydd, strategaeth feicio a thocynnau am brisiau gostyngol i'r henoed.

4.13 Dywedodd Mrs Ritson o Gaerwen fod llwybrau troed yn ffordd dda i blant fynd i'r ysgol a dywedodd fod angen mwy o lwybrau, a gwell llwybrau, ar Ynys Môn.

- Dywedodd Prif Weinidog Cymru fod Sue Essex yn rhoi blaenoriaeth uchel i'r cynllun llwybrau diogel i'r ysgol.

4.14 Dywedodd dyn, na roddodd ei enw, y dylai'r Cynulliad edrych ar y polisi tuag at yr iaith Gymraeg ac awgrymodd y dylid cyflwyno strategaethau tebyg i'r rheini yn y Ffindir, gyda chymorth Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Dywedodd Prif Weinidog Cymru fod adolygiad o'r polisi iaith ar y gweill.

4.15 Holodd Jonathan Portelli, Ysgol Uwchradd Caergybi, a oedd Cymru gyfan yn dymuno cael y Cynulliad.

- Dywedodd Prif Weinidog Cymru fod gan bobl yn gyffredinol farn sinigaidd am lywodraeth ar bob lefel a bod hynny'n iach. Yr oedd y Cynulliad yn newydd ond ni ddylid gwadu ei fodolaeth. Yr oedd yn gwneud priod waith a dylai pobl ei farnu drwy ystyried pa mor effeithlon yw o'i gymharu â llywodraeth y DU a llywodraeth leol.

4.16 Diolchodd y Cadeirydd i Brif Weinidog Cymru a phawb a oedd wedi cyfrannu at y cyfarfod. Os oedd unrhyw un wedi methu gofyn cwestiwn gallent ei gyflwyno'n ysgrifenedig a byddent yn derbyn ateb. Gwelir rhestr o'r cwestiynau ysgrifenedig a dderbyniwyd yn atodiad 1. Câi cyfarfod nesaf y Pwyllgor ei gynnal ddydd Gwener 6 Gorffennaf yn y Rhyl.

*Pwyntiau gweithredu*

4.17 **Prif Weinidog Cymru** i godi'r mater yngln â chyswllt rhwng yr A55 a phorthladd Caergybi gyda Sue Essex gan ofyn iddi ysgrifennu yn nodi'r sefyllfa ddiweddaraf.

4.18 **Prif Weinidog Cymru** i ofyn i Jenny Randerson edrych ar y cyllid ar gyfer y cynllun Sportsmatch.

**Ysgrifenyddiaeth** **Mai 2001**

---

**Atodiad 1**

**Cwestiynau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan aelodau'r cyhoedd**

**Mr Walters, Cymdeithas Datblygu'r Rheilffyrdd**

Amcangyfrifwyd y byddai'r cyswllt rheilffordd arfaethedig rhwng Caernarfon a Bangor yn costio £14m.

Fedrwch chi ddweud wrthyf pa gynnydd sydd wedi ei wneud ar hyn a pha ran y mae'r Cynulliad wedi ei chwarae/y bydd y Cynulliad yn ei chwarae?

**Barrie Mee, Cadeirydd Grp Mynediad Sir Ddinbych, Is-gadeirydd (y Gogledd) Scope Cwmpas Cymru**

Gyda'r system drafnidiaeth integredig sy'n cael ei hawgrymu, i ba raddau y bydd y Cynulliad a'i bwyllgorau yn ymgynghori â phobl sydd ag anableddau i ganfod yr hyn y maent hwy wedi'i nodi fel system drafnidiaeth hygyrch.

**N Rees, Trafnidiaeth Gymunedol Conwy**

Ydy'r pwyllgor yn ymwybodol fod trosglwyddo'r cyllid ar gyfer Trafnidiaeth Gymunedol o'r Cynulliad i'r cynghorau sir wedi (yn ein hachos ni) gwneud y sefyllfa'n waeth oherwydd y diffyg diddordeb mewn Trafnidiaeth Gymunedol a ddangosir gan y swyddog perthnasol? Pam na ellir dyrannu'r cyllid yn uniongyrchol i gyrff Trafnidiaeth Gymunedol? Byddai hyn yn osgoi'r broblem o roi rheolaeth i swyddogion dros gyrff nad oes ganddynt unrhyw ddiddordeb ynddynt yn ôl pob golwg a byddai'n eu hatal rhag defnyddio'r cyllid sydd ar gael at ddibenion eraill.

**David St George, Celtic Dimensions**

Gellir ystyried trafnidiaeth yn fater sy'n uno ac sy'n ymwneud â chyfathrebu.

Mae mynediad rhwng Gogledd Orllewin Cymru a Chymru a thuag allan i ganolfannau busnes y DU ac Ewrop yn wael. Nid oes gennym gysylltiadau awyr a fyddai'n ein gwneud yn fwy deniadol i'r Gymuned Fusnes. Cydnabyddir bod gwasanaethau awyr yn creu gweithgaredd economaidd mewn rhanbarth. Gellir dechrau ar gysylltiadau awyr o fewn wythnosau a gellir cyflawni gwelliannau i'r meysydd awyr lleol sy'n bodoli'n barod yn gyflym a rhad o fewn misoedd. Er bod ffyrdd a rheilffyrdd yn hanfodol, mae eu costau'n uchel a byddant yn cymryd blynyddoedd.

- Ydy'r pwyllgor yn cytuno a sut y gallai'r Cynulliad Cenedlaethol gefnogi datblygiad gwasanaethau awyr?

Gellid ystyried cyfathrebu hefyd mewn termau ehangach a chynnwys TG gyda chysylltiadau band eang a radio, yn enwedig gan fod hyn yn rhywbeth y gellir ei wneud yn gymharol gyflym heb unrhyw darfu yn y cyfamser.

Roeddem yn siomedig i glywed bod cyflenwyr TG yng Nghymru wedi cael anawsterau i ennill contract gan fod y broses dendro bresennol yn golygu nad ydynt yn ddigon mawr i fynd i mewn i'r broses honno. Hoffem ofyn felly:

- A ellir newid y broses dendro er mwyn cynnwys chwaraewyr pwysig, ond mewn termau byd-eang, 'bach' o Gymru? (mae hyn yn neilltuol o bwysig nid yn unig i'r economi, ond gan y gall chwaraewyr o Gymru gyflenwi fformatau a help yn y Gymraeg – e.e. Gaia)
- Hyd nes y bydd y problemau trafnidiaeth wedi'u datrys, byddem yn gofyn am wneud yn sir bod y ddarpariaeth ar gael i gyfathrebu drwy gyfrwng TG er mwyn rhoi diwedd ar allgáu cymdeithasol – a hynny o safbwynt busnes yn ogystal â'r allgáu cymdeithasol y mae pawb yn gwybod amdano, a achosir gan dlodi i'r rheini nad ydynt yn gallu cyrchu'n breifat at TG?

**Gwyneth Owen, Cyngor Cymuned Caergeiliog**

Yn sgîl gwerthu nifer o dai'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn yr ardal yn ddiweddar, mae nifer fawr o bobl wedi symud i mewn.

Fodd bynnag, nid oes yma unrhyw fwynderau lleol i ddarparu ar gyfer y cynnydd yn y boblogaeth.

A all y Cynulliad roi arian yn uniongyrchol i Gynghorau Cymuned i ddelio â materion lleol.

**Stephanie Howden, Ysgol Syr Thomas Jones**

Pam bod polisi dwyieithog mewn ysgolion cynradd ond ddim mewn ysgolion uwchradd. Mae hyn yn arwain at ddirywiad yn iaith a diwylliant pobl ifanc erbyn iddynt gyrraedd 18 a gadael i fyd gwaith, gan arwain at leihad a dirywiad yn y Gymraeg. Pam, yn Ynys Môn yn arbennig bod athrawon uniaith Saesneg yn cael eu cyflogi mewn ysgolion dwyieithog?

A pham mai dim ond un ysgol uwchradd yng Ngogledd Cymru sy'n gallu cynnig pynciau Lefel A fel y Gwyddorau trwy gyfrwng y Gymraeg a bod <u>pob</u> disgybl sy'n dilyn cwrs Lefel A trwy gyfrwng y

Gymraeg yn gorfod dioddef oherwydd diffyg adnoddau?

**G Francis Roberts**

A yw'r Prif Weinidog yn sylweddoli cymaint o anhawster sy'n bodoli yn Uned Gyfieithu'r Cynulliad o safbwynt amseru a safon cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg, a bod y Gwasanaeth Iechyd yn Lloegr yn honni y gall gymryd chwe wythnos iddynt gael hysbysebion wedi'u cyfieithu.

Dyma'r cefndir i'r cwestiwn:

a. Pan ofynnais i'r Gwasanaeth Iechyd yn Lloegr pam bod hysbyseb yn y Daily Post yn uniaith Saesneg, yr ateb gefais oedd bod cyfieithu yn cymryd chwe wythnos ac na allent aros cyhyd.
b. Pan ofynnais i Is-adran Plant a Theuluoedd y Cynulliad pam bod cynifer o wallau mewn fersiwn Cymraeg un o'u llythyrau, yr ateb gefais oedd nad oeddent wedi arolygu'r cyfieithiad gan fod awdur y llythyr yn siarad Cymraeg, a'u bod yn awyddus i wella gallu eu staff i baratoi fersiynau Cymraeg. Ond addawsant y byddent yn arolygu'r gwaith o hyn ymlaen.
c. Mae hefyd yn broblem gan fod rhai adrannau o'r Gwasanaeth Iechyd yn Lloegr, ee Y Comisiwn Cadw Organau, yn dweud eu bod yn gyfrifol am Loegr yn unig, ac mai hynny yw'r rheswm pam bod eu hysbysebion yn y Daily Post yn ymddangos yn Saesneg yn unig (beth bynnag am Ddeddf yr Iaith).

**Dylan Morgan, PAWB**

Faint o daflenni Greenpeace yn ymwneud â chadw'r Wylfa ar gau a gafodd y Cynulliad oddi wrth aelodau'r cyhoedd?